


Cofrestrfa
Tir EF



Delio ag eiddo pan fydd rhywun yn marw



Delio ag eiddo pan fydd rhywun yn marw

Mae'r rhan fwyaf o eiddo yng Nghymru a Lloegr wedi ei gofrestru gyda Chofrestrfa Tir EF.

Mae'r daflen hon yn rhoi gwybodaeth bwysig ichi ei hystyried wrth ddelio ag eiddo rhywun sydd wedi marw.

Fel rheol, does dim brys i roi trefn ar yr eiddo, ond gall delio â materion rhywun sydd wedi marw fod yn anodd, ac efallai bydd goblygiadau cyfreithiol ac ariannol. Os nad ydych yn siwr beth i'w wneud ar unrhyw adeg, rydym yn argymhell eich bod yn ceisio cyngor cyfreithiol.



Yn gyntaf

Yn aml, pan fydd perchennog eiddo yn marw, bydd angen gwerthu neu drosglwyddo ei eiddo. A phan fydd y gwerthiant neu'r trosglwyddiad wedi ei gwblhau, rhaid ei gofrestru gyda Chofrestrfa Tir EF.

Cyn ichi ddechrau'r broses hon, bydd angen ichi wybod:

- a yw'r eiddo wedi ei gofrestru gyda Chofrestrfa Tir EF
- pwy sy'n berchen ar yr eiddo
- a yw'n eiddo ar y cyd neu'n eiddo i un person

Os nad ydych yn siwr, gallwch ddod o hyd i wybodaeth am eiddo yng Nghymru a Lloegr, hyd yn oed os nad ydych yn berchen arno, gan ddefnyddio'n gwasanaeth [Chwilio am wybodaeth am dir ac eiddo](#) ar [GOV.UK](#). Mae gennym fideo defnyddiol ar YouTube o'r enw: [Sut i ddod o hyd i wybodaeth am dir ac eiddo hefyd](#).

Pwy all ddelio â'r eiddo

Pan fydd unig berchennog eiddo yn marw, penodir rhywun i ddelio â'i faterion, gan gynnwys unrhyw eiddo oedd ganddo. 'Ysgutor' yw'r enw ar y person hwn os oes ewyllys wedi ei chofnodi, a 'gweinyddwr' os nad oes ewyllys.

Bydd yr ysgutor neu'r gweinyddwr yn gwneud cais am grant cynrychiolaeth, sef yr hawl i ddelio ag eiddo rhywun ar ôl iddo farw. 'Grant profiant' fydd hwn os oes ewyllys wedi ei chofnodi neu 'lythrau gweinyddu' os nad oes ewyllys.

Mae'r grant cynrychiolaeth yn rhoi'r awdurdod cyfreithiol i'r ysgutor neu'r gweinyddwr ddelio â'r eiddo.

[Darllenwch am sut i wneud cais am brofiant](#) ar GOV.UK.

Os nad yw'r eiddo wedi ei gofrestru gyda ni

Os nad yw'r eiddo'n gofrestredig, bydd unrhyw newid perchnogaeth yn achosi'r angen i gofrestru am y tro cyntaf. Am ragor o wybodaeth, gweler [https://www.gov.uk/Cofrestru tir neu eiddo gyda Chofrestrfa Tir EF](https://www.gov.uk/Cofrestru_tir_neu_eiddo_gyda_Chofrestrfa_Tir_EF)



Diweddaru'r cofnodion eiddo

Mae gan ein canllaw byr, Diweddaru cofnodion eiddo pan fydd rhywun yn marw, fanylion am y ffurflenni y bydd eu hangen arnoch, y dystiolaeth gefnogol sy'n ofynnol ac unrhyw ffioedd sy'n daladwy.

Mae'r ffordd rydych yn diweddaru cofnodion yr eiddo a phwy sy'n gyfrifol am wneud hynny'n dibynnu ar p'un ai roedd yr ymadawedig yn unig berchennog neu'n gydberchennog yr eiddo.

Pan fydd unig berchennog yn marw


Os yw'r eiddo wedi ei gofrestru i unig berchennog, dylai'r ysgutor neu'r gweinyddwr sy'n delio â'r ystad ddelio â'r eiddo yn unol â thelerau ewyllys yr ymadawedig neu, os nad oes ewyllys, cyfreithiau etifeddiaeth.

I drosglwyddo'r eiddo i fuddiolwr (y person sy'n etifeddu'r eiddo gan yr ymadawedig), bydd angen i'r ysgutor neu'r gweinyddwr drosglwyddo'r berchnogaeth gyfreithiol trwy llenwi ffurflen AS1. Cydsyniad yw'r enw ar hwn. Dylid anfon y ffurflen AS1, ynghyd â ffurflen AP1 wedi ei llenwi, a chopi ardystiedig o'r grant profiant neu lythyrau gweinyddu atom.

Fel arall, efallai bydd yr ysgutor neu'r gweinyddwr yn trosglwyddo'r eiddo i rywun arall. Os felly, byddent yn defnyddio ffurflen TR1.

Dylid anfon y ffurflen TR1, ynghyd â ffurflen AP1 wedi ei llenwi, a chopi ardystiedig o'r grant profiant neu lythyrau gweinyddu atom.

Am arweiniad, gweler ein cyngorion da ar GOV.UK ar sut i ddelio ag eiddo pan fydd unig berchennog yn marw neu ein fideo "Yr hyn i'w wneud pan fydd unig berchennog eiddo'n marw" ar YouTube



Os yw cyd-berchennog wedi marw ac mae perchennog yn dal i oroesi

Os oedd y person sydd wedi marw yn berchen ar yr eiddo ar y cyd â rhywun arall, mae'r berchnogaeth gyfreithiol yn trosglwyddo i'r cyd-berchennog sy'n goroesi.

Os yw'r eiddo wedi ei gofrestru mewn enwau ar y cyd, rhwch wybod inni am y farwolaeth, gan ddefnyddio [ffurflen DJP](#). Byddwn yn diweddarau'r gofrestr. Nid oes tâl am hyn.

[Lawrlwythwch ffurflen DJP o'n gwefan, GOV.UK](#), a dychwelwch y ffurflen wedi ei llenwi atom, ynghyd â chopi gwir o'r dystysgrif marwolaeth ar gyfer yr ymadawedig wedi ei ardystio.

Am arweiniad ar sut i lenwi [ffurflen DJP](#), gweler ein [fideo YouTube](#) neu ein canllaw [awgrymiadau da ar GOV.UK](#).



Os yw cyd-berchennog wedi marw ac mae'r berchnogaeth yn newid neu'n cael ei dal mewn ymddiried

Os yw'r berchnogaeth yn newid, byddai angen i'r cyd-berchennog sy'n goroesi drosglwyddo'r holl berchnogaeth gyfreithiol. Cyn penderfynu ar hyn, mae'n bwysig ystyried y goblygiadau cyfreithiol ac ariannol i bawb o dan sylw, gan gynnwys y perchennog sy'n goroesi ac unrhyw berchennog newydd.

Mae delio ag eiddo sy'n cael ei ddal fel tenantiaid ar y cyd neu mewn ymddiried yn gymhleth. Ni allwn ymdrin â phob senario yn y daflen hon a byddem bob amser yn argymhell eich bod yn ceisio cyngor cyfreithiol i ddeall pa ddewisiadau sydd ar gael i bawb cyn ceisio trosglwyddo'r berchnogaeth gyfreithiol.

Darllenwch [am gydberchnogaeth ar ein gwefan](#), GOV.UK. Mae gan [ein blog](#), [Pa fath o gydberchnogaeth sydd gennych?](#) yn cynnwys gwybodaeth ddefnyddiol hefyd.

Os nad ydych yn siwr ble i gael cyngor cyfreithiol, ewch i gronfa ddata [Dod o Hyd i Gyfreithiwr Cymdeithas y Cyfreithwyr](#), [Dod o Hyd i Gyfreithiwr Rheoliadau Sefydliad Siartredig Gweithwyr Proffesiynol](#), neu [Dod o Hyd i Drawsgludwr Trwyddedig Cyngor y Drawsgludwyr Trwyddedig](#) i gael manylion ymarferyddion cyfreithiol yn eich ardal.

Am arweiniad ar lenwi ffurflen TR1, gweler ein [fideo YouTube](#) neu [ein canllaw awgrymiadau da ar GOV.UK](#).

Ble i anfon eich cais

Rydym yn argymhell eich bod yn ceisio cyngor cyfreithiol ar gyfer unrhyw drafodiad eiddo, ond os ydych yn cyflwyno cais inni eich hun, anfonwch eich ffurflen(ni) wedi eu llenwi, ynghyd â thystiolaeth gefnogol, i'r Ganolfan Dinasyddion trwy ein [cyfeiriad safonol](#).

Gwarchod yr eiddo rhag twyll

Yn dilyn marwolaeth, gall eiddo gael ei adael yn wag a bod yn agored i dwyll, er enghraifft gall rhywun esgus bod yn berchennog er mwyn elwa ohono.

Gallwch gymryd camau i helpu gwarchod eiddo rhag cael ei werthu neu ei forgeisio'n dwyllodrus trwy gofrestru ar gyfer [gwasanaeth Property Alert di-dâl Cofrestrfa Tir EF](#).

Gallwch gofrestru i gael hysbysiadau am eiddo os gwneir cais i newid cofrestr eich eiddo, er enghraifft os yw rhywun yn ceisio defnyddio'ch eiddo ar gyfer morgais. Ni fydd hyn yn rhwystro unrhyw newidiadau i'r gofrestr yn awtomatig ond bydd yn eich hysbysu pan fydd rhywbeth yn newid, er mwyn ichi gymryd camau.

Gallwch gael hysbysiadau am hyd at 10 eiddo. Does dim ffi a does dim rhaid ichi berchen ar yr eiddo. I gael gwybodaeth am sut i gofrestru, [darllenwch ein Canllawiau ar Property Alert ar GOV.UK](#). Mae canllawiau pellach ar helpu i warchod tir ac eiddo rhag twyll ar gael ar ein gwefan: [Gwarchod eich tir a'ch eiddo rhag twyll](#).



Cymorth pellach

I gysylltu, neu am ragor o ganllawiau defnyddiol, [ewch i'n tudalen gysylltu ar GOV.UK](#).

Ar gyfer help fideo ar sut i lenwi'n ffurflenni, gan gynnwys [AP1](#), [AS1](#) a [TR1](#), gweler ein [Rhestr chwarae canllawiau cyhoeddus ar YouTube](#):

[Yr hyn i'w wneud pan fydd unig berchennog eiddo yn marw](#)

[Yr hyn i'w wneud pan fydd cyd-berchennog yn marw](#)

[Sut i nodi marwolaeth perchennog cofrestredig](#)

[Sut i gofrestru cynrychiolydd personol yn berchennog eiddo](#)

[Sut i gydsynio eiddo i rywun a enwir mewn ewylllys](#)

[Sut i drosglwyddo eiddo i rywun nad yw wedi ei enwi mewn ewylllys \(trydydd parti\)](#)